# Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin - Adroddiad ar Weithredu

**Ionawr - Rhagfyr 2024**

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## Cyflwyniad

Mae gan Sir Gaerfyrddin hanes hir o gydweithio yn y sector amgylchedd naturiol. Mae Partneriaeth Natur Leol Sir Gaerfyrddin (CLNP) yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n cynnwys y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, elusennau bywyd gwyllt, cofnodwyr bioamrywiaeth sirol a grwpiau gwirfoddol - i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i warchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin. Mae'r CLNP hefyd yn cynnwys cysylltiadau â chymunedau ac unigolion, ac mae'r agwedd hon wedi'i chryfhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy brosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r CLNP yn bodoli i hyrwyddo adferiad natur a chymryd camau sy'n cyflawni'r amcanion cenedlaethol ar gyfer adfer natur, gan helpu i wneud Sir Gaerfyrddin yn sir lle mae pobl a natur yn ffynnu. Mae'r CLNP yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, a threfnir hynny gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor. Mae gwaith y partneriaid yn cynnwys camau cadwraeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y sir trwy reoli tir, a chamau i helpu rhywogaethau penodol. Mae cyfranogiad lleol yn hanfodol, ac mae partneriaid yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth a gweithredu prosiectau sydd o fudd i fioamrywiaeth a llesiant cymunedol. Trwy ddarparu platfform i rannu profiad, gwybodaeth ac arfer gorau, mae'r CLNP yn hwyluso cyfathrebu a chydweithio. Mae'r grŵp hefyd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ac arbenigedd sy'n helpu i lywio'r broses o weithredu deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ar lefel leol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan bartneriaid yn y CLNP yn 2024. O ddiddordeb arbennig y mae cwblhau a chyhoeddi Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Sir Gaerfyrddin, sy'n wiriad stoc o fioamrywiaeth y sir ac sy'n waelodlin ar gyfer gwaith y dyfodol.

Yn genedlaethol, mae natur yn uwch ar yr agenda am nifer o resymau, gan gynnwys:

- gwell dealltwriaeth o rôl natur wrth gefnogi gwytnwch hinsawdd (lliniaru ac addasu) ac economi iach,

- cydnabyddiaeth gynyddol o'r effaith gadarnhaol y mae natur yn ei chael ar iechyd a llesiant dynol a,

- cefnogaeth gynyddol gan y cyhoedd a gwerthfawrogiad o natur, yn enwedig ers pandemig Covid.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd Cymru'n cyflawni ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE i atal a gwyrdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth. Yn unol â hyn, mae Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin yn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad, gyda'r amcanion canlynol:

❶ Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth gan ymgorffori bioamrywiaeth ar hyd pob lefel o wneud penderfyniadau;

❷ Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt;

❸ Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd;

❹ Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd;

❺ Gwella'n tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro;

❻ Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth i gyflwyno ar waith.

Mae bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i brofi pwysau ac effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd, cynnydd mewn datblygiadau, a newidiadau defnydd tir a rheoli tir. Mae'r CLNP yn gadarn ac mae partneriaid unigol wedi sicrhau cyllid prosiect o nifer o ffynonellau. Fodd bynnag, mae angen cyllid hirdymor i sicrhau bod y CLNP yn parhau i weithredu er mwyn cefnogi adferiad natur yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Awdurdod Lleol yn caniatáu ar gyfer hwyluso/ysgrifenyddiaeth y CLNP a chysylltiadau â chynllun Partneriaethau Natur Lleol Cymru ledled y wlad, drwy'r Swyddog Bioamrywiaeth. Mae cymorth ariannol drwy

amser swyddogion Awdurdod Lleol wedi bod yn hanfodol o ran caniatáu i'r CLNP barhau. Mae hyn hefyd wedi caniatáu cyflogi Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i ddarparu'r rhaglen waith statudol yn y sir.

Mae'r CLNP wedi elwa'n fawr o gefnogaeth sylweddol gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau partner. Mynychir cyfarfodydd yn wirfoddol gan swyddogion o sefydliadau partner, cofnodwyr sirol a chynrychiolwyr asiantaeth statudol. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys partneriaid sydd wedi gwirfoddoli ar gyfer y rôl:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru,

Cyfoeth Naturiol Cymru,

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru,

Cyngor Sir Caerfyrddin,

Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir,

Ymddiriedolaeth Natur De a De-orllewin Cymru

Un Llais Cymru

Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru,

...yn cyfrannu amser fel unigolion neu ar ran eu sefydliadau.

Mae rôl y Partneriaethau Natur Lleol o ran cyrraedd targedau cenedlaethol yn debygol o ddod yn bwysicach yn y dyfodol.

Yn 2024 cyhoeddodd LlC ei hymgynghoriad Papur Gwyn, "Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy - Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach". Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer:

- ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
- sefydlu corff llywodraethu newydd i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, a chydymffurfiaeth â hynny;
- cyflwyno fframwaith adfer natur strategol, a fydd yn cynnwys targedau bioamrywiaeth.

Fel rhan o'i hymateb i'r ymgynghoriad, pwysleisiodd LlC y gwaith o adfer natur ar lefel leol ac amlygu rôl Partneriaethau Natur Lleol.

Cyn blwyddyn brysur arall yn 2025, mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o rai o lwyddiannau'r partneriaid yn 2024. Mae'n darparu enghreifftiau o gydweithio a chydweithredu, a hwylusir yn aml gan y CLNP, i warchod a gwella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.

*Grŵp Llywio Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin*

**Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin**

| **Talfyriadau yn y testun** | | | |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon | BSBI | Cyfoeth Naturiol Cymru | CNC |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn | BBCT | Ymddiriedolaeth Gadwraeth Pen-bre | PCT |
| Gwarchod Glöynnod Byw | BC | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent | VWT |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | CSC | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | WBP |
| Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin | CMG | Llywodraeth Cymru | LlC |
| Rhywogaethau Estron Goresgynnol | INNS | Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru | WWRT |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | LPfN | Ymddiriedolaeth Natur De a De-orllewin Cymru | WTSWW |
| Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru | MWRSP | Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir | WWT |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | NBGW | | |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | NT | | |

**Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru wedi cael blwyddyn brysur iawn yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y canlynol:**

**1.** Parhau â'r gwaith calchu i fynd i'r afael â phroblemau asideiddio o ganlyniad i goedwigoedd yn rhannau uchaf dyffryn Tywi.
**2.** Darparu cyngor seilwaith fferm cyfrinachol ac am ddim i nifer o ffermydd yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyngor hwn yn canolbwyntio ar wahanu dŵr glân a budr i leihau slyri.
**3.** Casglu data helaeth am ddŵr ffo dros dir gwledig i nodi ffynonellau llygredd maetholion a gwaddod, mewn partneriaeth â Bwrdd Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru.
**4.** Parhau â'r prosiect Mabwysiadu Isafon i ymgysylltu pobl â'u hamgylcheddau afonydd lleol, gan gynnwys dros 1600 o bobl yn mynychu digwyddiadau, 210 o wirfoddolwyr, 15 o ddigwyddiadau gwaredu rhywogaethau goresgynnol anfrodorol, a gwaredu 1.3 tunnell o sbwriel.
**5.** Darparu cynlluniau llwybrau pysgod gan gynnwys 'cwlfer di-waelod' sy'n caniatáu i'r afon lifo'n rhydd ac sy'n rhoi llwybr i bysgod, swbstrad a deunyddiau afon.
**6.** Cilometrau o ffensys ar lannau'r afon i atal da byw rhag cael mynediad i gyrsiau dŵr a chaniatáu i lystyfiant ymylol dyfu.

'Cwlfer di-waelod' sy'n caniatáu i'r afon lifo'n rhydd ac sy'n rhoi llwybr i bysgod, swbstrad a deunyddiau afon.

Mae WWRT wedi derbyn cyllid gan:

- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru - Sir Gaerfyrddin
- Cyllid Adfer Cynefinoedd Pysgodfeydd – Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mabwysiadu Isafon - Llywodraeth y DU

**Cydweithio**:
CSC, CNC, Bwrdd Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru, ffermwyr.

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ |

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Mae llawer o waith Plantlife Cymru yn Sir Gaerfyrddin eleni wedi bod drwy ein prosiect Glaswelltiroedd Gwydn. Mae'r prosiect yn ariannu gwaith ar ein gwarchodfa natur, Cae Blaen-dyffryn, ychydig i'r de o Lanbedr Pont Steffan. Mae hyn wedi cynnwys gosod sampler alffa i ddeall effaith dyddodiad nitrogen atmosfferig ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a choleri GIS NoFence ar gyfer y gwartheg sy'n pori er mwyn helpu i ddeall eu hymddygiad pori yn well.

Mae Plantlife hefyd wedi ymgymryd â rheolaeth prysgwydd pellach a'u cyfrif Tegeirian Llydanwyrdd blynyddol. Bellach yn y 'tymor capiau cwyr', mae Plantlife wedi cynnal un sesiwn hyfforddi adnabod capiau cwyr yn y sir (yn Pal y Cwrt) ac maent bellach yn annog trigolion Sir Gaerfyrddin i gofnodi eu ffyngau glaswelltir eu hunain gan ddefnyddio'r Waxcap App.

Mae Plantlife hefyd wedi bod yn gweithio gyda thirfeddianwyr preifat ar arolygon glaswelltir a chyngor rheoli.

Gwirfoddolwyr Plantlife yn y cyfrif tegeirian blynyddol yng Ngwarchodfa Natur Cae Blaen Dyffryn

**Mae Plantlife wedi derbyn cyllid gan:**

Cronfa Rhwydweithiau Natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri Llywodraeth Cymru - Prosiect Glaswelltiroedd Gwydn

**Cydweithio:** tirfeddianwyr preifat

| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin? (Gweler testun y cyflwyniad)** | | | | | | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ | ❺ ✓ | ❻ | |

Mae Saving Brechfa's Bumblebees yn fenter gydweithredol rhwng Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn (BBCT) a RWE Renewables UK Ltd a phrosiect ymgysylltu â'r gymuned. Ei nod yw catalogio cacwn a rhywogaethau peillio/infertebratau allweddol eraill yn ardal Coedwig Brechfa. Mae gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys sgyrsiau, adnabod cacwn a phlanhigion, saffaris cacwn, hyfforddiant mewn monitro a thechnegau rheoli dolydd, e.e. pladuro a phori cadwraeth. Trwy roi'r sgiliau hyn i wirfoddolwyr a grwpiau, nod y prosiect yw creu a chynnal cynefinoedd sy'n gyfeillgar i bryfed peillio yn ardal prosiect Brechfa ac mewn gerddi cymunedol/mannau gwyrdd.

Mae prosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin y BBCT yn gweithio i wella cysylltedd ar gyfer cacwn a rhywogaethau o infertebratau eraill sy'n cael blaenoriaeth mewn ardal yn fras o orllewin Llanelli i Goedwig Pen-bre. Mae arolygon yn cael eu cynnal ar draws safleoedd allweddol i asesu poblogaethau a chynefinoedd rhywogaethau targed. Amcanion allweddol y prosiect yw gwella cyflwr cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau targed, gwella cysylltedd ar gyfer infertebratau ar draws ardal y prosiect, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhywogaethau targed ac ymgysylltu â'r gymuned. Bydd gwaith prosiect yn datblygu cynefinoedd blodau gwyllt ar hyd Llwybr Arfordir y Mileniwm ac yn darparu hyfforddiant ac offer i wirfoddolwyr, gan gynnwys o PCT i wella cynefin cyfeillgar i beillwyr gyda choedwig Pen-bre. Yn hollbwysig, mae'r prosiect hefyd wedi comisiynu ymgynghorydd ymgysylltu cymunedol i nodi'r rhwystrau sy'n atal cymunedau a ymyleiddiwyd, y rhai sydd â sgoriau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru isel er enghraifft, rhag cymryd rhan yn y prosiect a sut gall ein rhywogaethau targed a'n gwaith fod yn gatalydd ar gyfer ymgysylltu'r cymunedau hyn â'r arfordir lleol, ei gynefinoedd a'i fywyd gwyllt unigryw.

Cardwenynen lwydfrown *(Bombus humilis)*

Taith infertebratau gyda Buglife

**Mae BBCT wedi derbyn cyllid gan:**

Saving Brechfa's Bees – Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa – Cronfa Gymunedol

Prosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin - Cronfa Rhwydweithiau Natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri Llywodraeth Cymru

Cydweithio:
**Saving Brechfa's Bees** – RWE (gweithredwyr ffermydd gwynt), CNC, gwirfoddolwyr lleol, ysgolion lleol)
**Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin** – Buglife, BC, CSC, CNC , Ymddiriedolaeth Gadwraeth Pen-bre, Cyngor Tref Llanelli, a grwpiau a sefydliadau elusennol lleol eraill.

| **Yn cyfrannu at Amcan Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler testun y cyflwyniad)?** | | | | | | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ | ❺ ✓ | ❻ ✓ | |

Mae Gwenffrwd Dinas, a reolir gan yr RSPB, yn rhan o'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd parhaus, sy'n ceisio diogelu a gwella'r cynefin prin hwn sydd dan fygythiad. Mae'r warchodfa yn gartref i ardaloedd rheoli ac astudio, gan edrych ar effeithiau adfer pori priodol i'r coetir a gwella strwythur y coetir. Y nod yw cynnal strwythur coetir agored, sy'n addas ar gyfer y planhigion is pwysig yn ogystal â rhywogaethau adar coetir fel Telor y Coed a'r Gwybedog Brith.
Eleni, mae rhodd hael wedi ein galluogi i brynu coleri gwartheg Nofence, gan greu posibiliadau gwych ar gyfer pori dan reolaeth mewn coetiroedd ledled y warchodfa.
Fel rhan o'r prosiect, cynhaliodd Gwenffrwd Dinas ddiwrnod arddangos pori, gyda thrigolion lleol a thirfeddianwyr, ffermwyr a sefydliadau cadwraeth eraill yn bresennol, ac roedd cyflwyniadau ar reoli coedwigoedd glaw ac ymweliad safle i weld effeithiau pori.

Mae grŵp gwirfoddol Fledgemore wedi cyflawni blwyddyn arall o waith caled yn monitro'r Gwybedogion Brith sy'n bridio yn Gwenffrwd Dinas. O'r 537 o focsys a gafodd eu monitro, roedd Gwybedogion Brith wedi ceisio creu nyth yn 208 ohonynt, gyda 114 o'r rhain yn llwyddiannus, a magwyd 625 o adar. Mae'r niferoedd hyn i gyd yn uwch nag yn 2023, er bod nifer y cywion bach ar gyfartaledd fesul bocs wedi gostwng ychydig eleni.

**Prosiect gwrychoedd**

Yn 2024 cafodd y gwrychoedd ar draws Gwenffrwd Dinas eu harolygu gan Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC). Fe'u mapiwyd a chofnodwyd cyfansoddiad y rhywogaethau. Bydd cynllun rheoli yn cael ei lunio er mwyn sicrhau gwelliant a pharhad cynefin ar draws y warchodfa. Rydym yn gobeithio gweithredu argymhellion ar gyfer arallgyfeirio a chreu gwrychoedd newydd dros y blynyddoedd dilynol.

Mae rhodd hael wedi ariannu arolwg bryoffyt manwl yn Gwenffrwd Dinas, sy'n bwysig i blanhigion is, ac mae'r arolwg hwn wedi cofnodi a mapio rhywogaethau bryoffyt a chynulliadau ar draws rhannau allweddol o'r warchodfa. Bydd yr astudiaeth yn galluogi asesu newidiadau o arolygon blaenorol ac yn llywio rheolaeth yn y dyfodol, yn enwedig yn y cyrsiau dŵr cul, llaith ar draws y warchodfa.

Roedd rhodd arall yn galluogi arolwg drôn o flociau ucheldirol yn Gwenffrwd Dinas, gan ddefnyddio ffotogrametreg i gynhyrchu model digidol manwl o'r topograffi. Ar ôl ei ddadansoddi, bydd y data hwn yn dangos presenoldeb a chyflwr mawnogydd yn yr ucheldiroedd, gan nodi'r potensial ar gyfer adfer a chaniatáu inni gynllunio gwaith yn y dyfodol i ddiogelu a gwella nodweddion gwlyb yn yr ucheldiroedd.



Ardal arolwg Bryoffyt yn Gwenffrwd Dinas

Ucheldiroedd Mynydd Mallaen

**Mae'r RSPB wedi derbyn cyllid gan:**

Rhoddion preifat; Cyllid LIFE Ewropeaidd drwy CNC

**Cydweithio:** INCC, porwr lleol, MWRSP, WTSWW, Parc Cenedlaethol Eryri, VWT

**Yn cyfrannu at Amcan Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin? (Gweler testun y cyflwyniad)**

| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 | 5 ✓ | 6 |
|---|---|---|---|---|---|

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Cafodd Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT) ganiatâd a gwneud atgyweiriadau i lannau'r Lagŵn Heli yr haf hwn, a oedd wedi cael eu difrodi gan wynt a thonnau. Mae'r rhain yn llochesi pwysig iawn ar y safle, yn enwedig i adar sy'n mudo yn yr hydref ac adeg llanw uchel. Ers y gwaith atgyweirio mae nifer fawr o rydwyr wedi eu cofnodi ar y lagynau gan gynnwys 17 Llwybig a 6 Chrëyr Gwyn Copog.

Ymhlith yr uchafbwyntiau bywyd gwyllt eraill eleni oedd glas y dorlan yn nythu, y boda llwydwyn a'r fôr-wennol fwyaf yn ymweld, brithribinau porffor a gwyn, a llygod pengron y dŵr – yn ddiweddar comisiynwyd astudiaeth ehangach o ddosbarthiad llygod pengron y dŵr gan Kora Ecology i ddeall sut maent yn defnyddio'r warchodfa ehangach ac yn cael awgrymiadau i reolwyr.

Mae gwaith adfer helaeth hefyd wedi digwydd ar y brif ynys yng Ngwlyptiroedd y Mileniwm yr hydref hwn i leihau prysgwydd ac adfer ffosydd i wella cynefinoedd ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear.

Cwblhawyd y gwaith o osod pont newydd i gerddwyr ar gyfer Gwlyptiroedd y Mileniwm ym mis Awst.

Gyda chymorth ein gwirfoddolwyr rydym wedi creu sawl cerflun helyg enfawr ar y warchodfa. Y diweddaraf yw Glas y Dorlan, a gwblhawyd ym mis Ebrill eleni.

Mae rhywogaethau goresgynnol yn parhau i fod yn her fawr ar y safle. Yn ddiweddar, mae Jac y Neidiwr a Chorchwyn Seland Newydd wedi lledaenu i nifer o rannau newydd o'r warchodfa, er gwaethaf ein hymdrechion gorau i reoli'r rhywogaethau goresgynnol hyn a rhai anfrodorol eraill.

Cerflun glas y dorlan enfawr o helyg

Pont Cuddfan y Crëyr newydd yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir

**Derbyniodd WWT gyllid gan:**

Prosiect Pont Cuddfan y Crëyr – cronfa ffyniant bro y DU; DC/WW

**Cydweithio:** CSC, DC/WW, Koru Ecology, CNC

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 ✓ | 5 ✓ | 6 |
|---|---|---|---|---|---|

Parhaodd Adain Gadwraeth CSC i weithio ar safleoedd ym Mhrosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr CSC a safleoedd CSC eraill a reolir gyda chronfeydd cynllunio A106, i liniaru effeithiau datblygiad ar gynefinoedd a rhywogaethau yn y sir. Roedd hyn yn cynnwys trefnu a hyrwyddo manteision pori cadwraeth ar safleoedd ar draws y sir.

Cymeradwywyd *Strategaeth ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio ar Ystâd CSC* gan y Cabinet a chan weithio gyda Chynnal a Chadw Tiroedd, ysgolion ac adrannau eraill yn y Cyngor, bydd yn cael ei gweithredu dros y blynyddoedd nesaf, gan gynyddu'r ardaloedd a reolir ar gyfer pryfed peillio.

Pori cadwraeth gan wartheg

**Cydweithio:** Adrannau CSC; porwyr

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 ✓ | 5 ✓ | 6 |
|---|---|---|---|---|---|

Canolbwyntiodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ddau brif brosiect yn 2024.

Mae grant Buddsoddi mewn Coetir Dolaucothi wedi ariannu gwelliannau cynefin i goetiroedd a llwybrau ar draws ystâd Dolaucothi, wedi adfer yr ardd goed furiog, ac wedi caniatáu plannu coed brodorol ac addurnol yn y parcdir ehangach (hefyd yn mynd i'r afael â Jac y Neidiwr a Chlymog Japan). Mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i osod dros 7 km o ffensys da byw newydd o amgylch coetiroedd i atal pori diangen ac mae'n creu 3.5 hectar o goetir newydd. Mae teneuo'r coetir Ffawydd ac arolygu a thrin Clymog Japan a Rhododendron o amgylch yr ystâd wedi digwydd, gan hefyd fynd i'r afael â Jac y Neidiwr mewn ardaloedd i ffwrdd o'r cyrsiau dŵr i atal lledaeniad ehangach. Mae'r gwaith hefyd wedi lleihau effaith Llawryf mewn ardaloedd o gwmpas yr hen barcdir. Mae 14 o focsys Bele'r Coed newydd wedi'u gosod (gyda chefnogaeth VWT) ac mae gwaith rheoli Gwiwerod Llwyd wedi cael ei wneud i gefnogi gwaith Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru. Cynhaliwyd arolwg o goed nodedig ar yr ystâd i nodi coed hynafol, gyda'r bwriad o ymgysylltu â thenantiaid er mwyn ceisio gwarchod y coed. Mae tenantiaid hefyd wedi ymgysylltu â'r prosiect, gan ein galluogi i sefydlu 600m o wrychoedd newydd a bloc coetir bach fel coridor bywyd gwyllt newydd. Cyflawnwyd Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ar gyfer Dolaucothi eleni hefyd.

Mae Parc Dinefwr – Prosiect Pedair Afon Life yn gweithio ar y gorlifdir 105 hectar gyda'r bwriad o adfer prosesau naturiol a lleihau effaith arferion ffermio blaenorol yno. Mae data'n cael ei gasglu ar y geomorffoleg a thrwy ffyn mesur sy'n cofnodi lefelau dŵr daear trwy gydol y flwyddyn. Defnyddir y data hwn i ailsefydlu rhai o'r pyllau bach a phyllau byrhoedlog sydd wedi'u tagu/heb eu clirio. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf cynhaliwyd arolygon o'r pyllau, gan gynnwys Dyfrgwn, Llygod Pengron y Dŵr (dim wedi'u darganfod), adar, fflora, Diptera a chregyn gleision dŵr croyw i sefydlu gwaelodlin. Mae rhywogaethau newydd ar gyfer y parc wedi cael eu cofnodi: Tegeirian Llydanwyrdd yng nghae'r Castell ac un o'r achosion prin iawn a gadarnhawyd o weld ffwng prin *Irpex latemarginatus* yn Dinefwr.

Ar yr ystâd ehangach o dan gytundeb newydd gyda CNC, rydym wedi dechrau gweithio i osod ffensys i ddiogelu coed hynafol. Bydd meithrinfa goed newydd yn creu cyflenwad parhaus o dderi Dinefwr brodorol ar gyfer y safle.

Mae arolwg o gennau'r parc a chymuned infertebratau coed meirw wedi'i gwblhau a llygredd amonia yn yr awyr, sy'n niweidio'r cennau - pob un â CNC fel partneriaid.

Rydym ar fin ffensio ardal o tua 3 hectar o dir fferm ger Home Farm i greu 3 hectar o goetir, a'r llynedd fe wnaethom sefydlu ardal o dir lle rydym yn bwriadu creu 1 hectar o borfa newydd yn y coed trwy blannu 15 o goed newydd a gosod gwarchodwyr coed.

Trawyd hen Sycamorwydden ar fferm Dolaucothi

Y ffwng prin *Irpex latemarginatus*

**Mae NT wedi derbyn cyllid ar gyfer:**

TWIG Llywodraeth Cymru – Coetiroedd Dolaucothi, Prosiect Pedair Afon Life a CNC

**Cydweithio:** CNC , BSBI, NBGW, CADW, VWT, tenantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 ✓ | 5 ✓ | 6 |

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Mae gardd bywyd gwyllt cymunedol Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC) yn y Garnant wedi bod yn datblygu'n dda, yn enwedig cynefinoedd pyllau a dolydd.

Yn ogystal â bod yn hafan i fywyd gwyllt, mae hefyd yn fan lle gall INCC gynnal digwyddiadau a gweithgareddau gwirfoddoli i bobl leol.

Mae INCC wedi bod yn gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr lleol i osod 12 bocs i'r Dylluan Wen. Gyda'i laswelltir corsiog, rhostir a dolydd, mae Dyffryn Aman yn dirwedd ddelfrydol i'r rhywogaeth. Gan weithio ochr yn ochr â modrwywyr adar profiadol a thrwyddedig, roeddem wedi gallu gwirio wyth o'r blychau nythu. I gyd, rhoddwyd modrwy ar 12 o gywion y Dylluan Wen a 6 o gywion y Dylluan Frech.

Gyda chefnogaeth cronfa gymunedol Mynydd y Betws a chyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, mae INCC wedi gosod dros 200 o flychau nythu ar gyfer poblogaeth Gwenoliaid y Bondo Dyffryn Aman, yn cynnwys ar Stand Clwb Rygbi'r Aman, Canolfan Gymunedol Cyngor Tref Cwmaman, swyddfa TRJ a Gorsaf Heddlu Rhydaman.

Er mwyn ceisio cael gwell syniad o ddosbarthiad Draenogod yn y dyffryn, mae INCC wedi bod yn adeiladu blychau i Ddraenogod i helpu perchnogion cartrefi i'w harolygu a'u monitro yn yr ardd.

Yn ogystal â rhoi gwell syniad inni am ddosbarthiad Draenogod yn y dyffryn, mae'r prosiect hefyd wedi bod yn ffordd wych o ymgysylltu â'r gymuned am Ddraenogod a'r hyn gall pobl ei wneud yn eu gerddi eu hunain i helpu'r rhywogaeth.

Cwpanau nythu Gwenoliaid y Bondo yn cael eu codi.

**Mae INCC wedi derbyn cyllid gan**

Cysylltu Pobl â Natur, gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol Mynydd y Betws, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru

**Cydweithio:** trigolion lleol, tirfeddianwyr, ffermwyr, busnesau, gwirfoddolwyr.

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 | 5 ✓ | 6 ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

**Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn yn rheoli rhannau o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Twyni Talacharn-Pentywyn/Twyni Bae Caerfyrddin. Yn 2024, fel rhan o reolaeth flynyddol barhaus rydym wedi:**

**1.** Rheoli ail-dyfiant rhafnwydden y môr a'u hadau trwy chwynladdwr mewn ardaloedd lle mae'r gwaith blaenorol o'i waredu wedi'i gwblhau.
**2.** Gosod ffensys da byw ychwanegol i gael gwell rheolaeth ar bori mewn ardaloedd botanegol sensitif.
**3.** Torri ar ddiwedd yr haf a chasglu 20 hectar o laswelltir twyni a hadau prysgwydd mewn ardaloedd lle nad yw pori'n ymarferol.
**4.** Defnyddio peiriannau i waredu 5 hectar o rafnwydden y môr ar hyd y blaen-dwyni.
**5.** Defnyddio peiriannau i waredu 10 hectar o brysgwydd lle mae llawer o helygen/gwernen ar gynefin llac twyni/mign.

**Ym Maes Arfau Awyr Traeth Pen-bre (SoDdGA Arfordir Pen-bre / ACA Twyni Bae Caerfyrddin) fel rhan o'r gwaith rheoli blynyddol parhaus, rydym wedi:**

**1.** Rheoli ail-dyfiant rhafnwydden y môr a'u hadau trwy chwynladdwr mewn ardaloedd lle mae'r gwaith blaenorol o'i waredu wedi'i gwblhau.
**2.** Torri ar ddiwedd yr haf a chasglu 10 hectar o laswelltir twyni a hadau prysgwydd mewn ardaloedd lle nad yw pori'n ymarferol.
**3.** Addasu'r drefn dorri mewn ardaloedd dethol i annog blodau i ddatblygu a gosod hadau.
**4.** Defnyddio peiriannau i waredu 2 hectar o brysgwydd lle mae llawer o helygen ar gynefin llac twyni.

**Cydweithio:** CNC

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| 1 | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 ✓ | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|

Plannwyd coed dros y gaeaf 23/24 ar ddau o safleoedd **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn Llandybie a Sanclêr; yn Sanclêr cynhaliwyd dyddiau plannu gyda'r ysgol leol a thrigolion lleol ac roedd llawer yno. Mae'r llwybr mynediad i gadeiriau olwyn ar Gae Chwarae Tre-gib bellach wedi'i ymestyn trwy Goedlan Gymunedol Tre-gib CSC fel ei fod yn ymuno â safle Coed Cadw gerllaw gyda chyllid gan Leoedd Lleol ar gyfer Natur.

Bellach mae coed llydanddail brodorol yn lle ardaloedd lle torrwyd conifferau ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain.

Mae CSC wedi derbyn cyllid TWIG ar gyfer dau brosiect coetir cymunedol a fydd yn rhedeg tan fis Mehefin 2026. Yn Bynea, bydd tir pori gerllaw'r ysgol yn cael ei ddefnyddio i greu coetir cymunedol newydd. Ym Mhontyberem bydd seilwaith mynediad cyhoeddus yn cael ei wella yng Nghoedwig Pentremawr ynghyd â rheolaeth o Rywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) a gwaith rheoli coetir arall.

Cafwyd cyllid Grant Creu Coetir Llywodraeth Cymru i blannu lleiniau cysgodi ar Fferm Sirol Bremenda Isaf yn Llanarthne, a fydd yn cael ei wneud y gaeaf hwn.

Plant ysgol lleol yn helpu i blannu coed yn Sanclêr.

**Derbyniwyd cyllid grant gan:**

- Creu Coetir - Grantiau Bach LlC
- Cyllid TWIG LlC
- Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

**Cydweithio:** ysgolion,

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 ✓ | 4 ✓ | 5 ✓ | 6 ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Mae **Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin** wedi cynnal dau gyfarfod dan do (yn agored i aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau) a daeth criw da yno. Mae ein haelodaeth wedi tyfu i 132, mae gan ein gwefan 229 o danysgrifwyr, ac mae gan ein Grŵp Facebook 620 o aelodau. Mae gan Grŵp Facebook Chwilfa Fawr y Dolydd (menter gan Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin - sydd ar waith ledled y DU erbyn hyn) 630 o aelodau a 2948 o ddilynwyr ar X (Twitter).

Bydd tri aelod o Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin yn mynychu Cynhadledd Grŵp Dolydd Cenedlaethol yn Sir Amwythig ym mis Tachwedd, gan roi cyflwyniad am ffurfio a datblygu'r grŵp yn y sir.

Rydym wedi helpu'r Gymuned Carbon gyda theithiau cerdded ar ddolydd ar eu safle ger Cynghordy ar gyfer eu gwirfoddolwyr, a hwyluso eu cyswllt â staff prosiect Glaswelltiroedd Gwydn Plantlife a phorwyr lleol i reoli eu hardaloedd glaswelltir.

**Cydweithio:** Plantlife, Y Gymuned Garbon, porwyr

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

❶ ✓ ❷ ✓ ❸ ✓ ❹ ❺ ✓ ❻

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Yng Nghanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Phartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, gan ddarparu data bioamrywiaeth o safon ar lefel leol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag ecolegwyr lleol ac arbenigwyr rhywogaethau yn y rhanbarth i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran bioamrywiaeth ac yn darparu gwasanaethau fel mapio cynefinoedd blaenoriaeth a safleoedd rhywogaethau ar gyfer adroddiad Sefyllfa Byd Natur Sir Gaerfyrddin, gan hyrwyddo hyn ar ein gwefan ac i'n cynulleidfa ehangach. Y flwyddyn ariannol hon gyda chymorth Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, rydym wedi bod yn cyflawni prosiect i ymgysylltu â chynulleidfa eang ac wedi bod yn rhoi hyfforddiant i fwy na 150 o wirfoddolwyr yn Sir Gaerfyrddin. Maent wedi cynhyrchu dros 500 o gofnodion biolegol, gan gynnwys safle newydd ar gyfer Marchrawnen y Coed yn y sir. Mae nifer o'r gwirfoddolwyr hyn wedi mynd ymlaen i gofnodi bywyd gwyllt yn eu hardaloedd yn Sir Gaerfyrddin yn rheolaidd. Rydym hefyd wedi hyrwyddo cofnodi rhywogaethau INNS drwy ein platfformau cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth ychwanegol hon â'n partneriaid gan gynnwys Partneriaethau Natur Lleol.

Sesiwn hyfforddi cofnodi a drefnwyd gan WWBIC

**Cyllid grant:**

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LlC

**Cydweithio:** Partneriaid Natur Sir Gâr, grwpiau cymunedol lleol

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

❶ ✓ ❷ ✓ ❸ ✓ ❹ ✓ ❺ ✓ ❻ ✓

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

✓

| | |
|---|---|
| Cynorthwyodd y cofnodwr cen ar gyfer y sir ym Mhrosiect Parc yr Esgob a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Porth Tywi, Abergwili, gan weithio gyda threfnwyr y prosiect a gwirfoddolwyr eraill i gofnodi a dehongli cennau'r ardd furiog, a rhoi sgyrsiau am gen yn y parc a chynorthwyo â dehongli i gefnogi eu prosiect a ariennir gan y Loteri. | **Cydweithio:** gwirfoddolwyr, arweinwyr prosiect |
| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**<br>❶ ✓ ❷ ❸ ❹ ❺ ✓ ❻ | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
| Mae rhaglen bancio hadau Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi parhau mewn partneriaeth â phrosiectau DU Banc Hadau'r Mileniwm. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar *crop wild relatives* a rhywogaethau coed. Mae amrywiaeth o rywogaethau o Sir Gaerfyrddin wedi cael eu casglu, gan gynnwys Rhuddygl Môr, Pannas Gwyllt a Letys Pigog. Rydym hefyd wedi sefydlu trefn brofi egino ar gyfer ein banc hadau – tasg hollbwysig i gael data gwaelodlin ar hyfywedd hadau i fonitro hyfywedd mewn degawdau i ddod. Lle bo'n bosibl, mae eginblanhigion o'r profion yn cael eu tyfu i ddarparu deunydd i'w arddangos a swmpio hadau.<br>Rydym wedi cynyddu niferoedd Tafolen y Twyni sydd dan fygythiad yn rhyngwladol ar gyfer CNC ar gyfer ei hailgyflwyno i Fro Morgannwg ac rydym hefyd yn parhau i dyfu mwsogl Sgriw Cŵn sydd dan fygythiad ar gyfer Natur am Byth, a rhywogaethau planhigion eraill i gefnogi cadwraeth *in-situ*.<br>Prosiect 2 flynedd Cronfa Rhwydweithiau Natur 3 'Tyfu Gwydnwch: Gwarchodfa Natur Genedlaethol ar gyfer y dyfodol' wedi dechrau, gan ddarparu gwaith cyfalaf, ymgysylltu â chadwraeth ac ymchwil ar Warchodfa Natur Genedlaethol Waun Las yr Ardd Fotaneg. Mae Swyddog Ymgysylltu â Chadwraeth wedi'i benodi am 2 ddiwrnod yr wythnos.<br>Mae prosiect tair blynedd 'Planhigion y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol' wedi parhau i ddigideiddio ein casgliadau planhigion gwasgedig 80-200 oed a chyflawni ymgysylltiad botanegol. | <br>Gwirfoddoli yn yr herbariwm yn yr Ardd Fotaneg<br> <br>Arolygu Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las |
| **Derbyniodd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gyllid gan:**<br>Prosiect 'Planhigion y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol' a ariennir gan Fenter Casgliadau Dynamig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.<br>'Tyfu Gwydnwch: Prosiect Gwarchodfa Natur Genedlaethol ar gyfer y dyfodol' a ariennir gan Gronfa Rhwydweithiau Natur 3 Llywodraeth Cymru/Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.<br>Grantiau gan Erddi Botaneg Brenhinol Kew ar gyfer bancio hadau *crop wild relatives* a choed yn 2024. | **Cydweithio:** Banc Hadau Mileniwm / Gardd Fotaneg Frenhinol Kew Plantlife, CNC, BSBI, CSC, NT, WTSWW, Natur Am Byth |
| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**<br>❶ ✓ ❷ ✓ ❸ ✓ ❹ ✓ ❺ ✓ ❻ | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
| | |

Mae gwarchodfa natur newydd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru(WTSWW), Rhydyglyn ger Llansawel, bellach yn cael ei rheoli'n briodol o ran cadwraeth ar ôl ffensio a gosod seilwaith hanfodol i ganiatáu pori gwartheg a gefnogir gan gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru trwy Bartneriaeth Natur Leol Sir Gaerfyrddin. Mae tua 9 hectar o hen borfa defaid a thir garw yn cael ei adfer drwy weithio mewn partneriaeth â phorwr cadwraeth arbenigol lleol a'i buches o wartheg Dexter, ynghyd ag ymyriadau fel torri gwair. Mae glaswelltir corsiog a phorfa rhostir yn cael eu hadfer rhag troi'n brysgwydd, mae hen borfeydd wedi'u lled-wella yn cael eu hadfer a thros amser byddant yn troi'n ddolydd gwair cyfoethog eu rhywogaethau. Oherwydd yr angen am fod yn ddiogel wrth bori gwartheg, nid yw'r warchodfa ar agor i'r cyhoedd, ond mae grwpiau diddordeb arbenigol wedi cael eu croesawu ar y safle a gall eraill wneud trefniadau i ymweld.

Gwartheg yn pori'r warchodfa natur newydd yn Rhydyglyn

**Derbyniwyd cyllid grant gan:**

Glaswelltiroedd Gwydn Iach NNF a Natur Hygyrch NNF – sydd wedi cyflawni camau gweithredu ar lawer o'n gwarchodfeydd yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi cefnogi sawl prosiect creu cynefin arall, rheoli gwiwerod llwyd, a phrosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn y sir.

**Cydweithio:** Porwr, Partneriaeth Natur Sir Gâr

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| 1 ✓ | 2 ✓ | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Mae'r prosiect Twyni Byw, a ariennir gan yr UE ac a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn dod i ben ar ôl 5 mlynedd o ail-greu symudiad naturiol mewn twyni ac adfywio cynefinoedd sy'n gartref i fywyd gwyllt sydd ymhlith y prinnaf y wlad.

Mae'r tîm Twyni Byw yn hynod falch o'r gwaith sydd wedi digwydd dros y 5 mlynedd diwethaf. Gall camau cadwraeth gweithredol fel hyn wneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn i fywyd gwyllt y twyni sydd dan fygythiad.

Cynhaliwyd cynhadledd olaf y prosiect ym mis Mai gyda mwy na 100 o gynrychiolwyr o'r DU a thramor yn ymgynnull yno ac ar-lein i glywed gan arbenigwyr lleol a rhyngwladol am gadwraeth a rheolaeth twyni tywod.

Rhannodd y tîm ganfyddiadau ac uchafbwyntiau'r prosiect mewn 5 mlynedd o weithredu dros fioamrywiaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- gwaith wedi'i wneud ar 350 o hectarau.
- cwblhau 29 km o ffensys.
- 191 hectar o gynefin twyni tywod wedi cael ei adfer yn uniongyrchol.
- 31 hectar o gynefin tywod noeth wedi'i greu.
- Dros 250 hectar o dwyni newydd wedi cael ei bori.
- 23 o gwningaroedd artiffisial wedi'u creu i gefnogi pori cwningod.

Roedd y gynhadledd hefyd yn cynnwys:

- Cyflwyniadau llawn gwybodaeth gan siaradwyr lleol a rhyngwladol ar y datblygiadau diweddaraf ym maes cadwraeth a rheolaeth twyni tywod.

Cynhadledd olaf Twyni Byw

| | |
|---|---|
| • Rhwydweithio, cydweithio a rhannu arfer gorau rhwng rheolwyr twyni tywod blaenllaw o bob rhan o'r DU a Gogledd Ewrop.<br>• Ymweliadau safle â thwyni tywod o'r radd flaenaf ar Ynys Môn.<br>• Diwylliant, tirweddau ac iaith unigryw Gogledd Cymru.<br>Mae rhaglen lawn a recordiadau o gyflwyniadau'r gynhadledd i'w gweld ar dudalen we Twyni Byw. | **Cydweithio:** CSC, Naturiaethwyr Llanelli, Sefydliad Seilwaith Amddiffyn, Dynamic Dunescapes, BSBI. |
| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**<br>❶ ✓ ❷ ✓ ❸ ✓ ❹ ✓ ❺ ✓ ❻ ✓ | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |

Derbyniodd tîm Hamdden Awyr Agored CSC gyllid TWIG Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynysdawela gan wneud gwelliannau i gynefinoedd ar gyfer glöyn byw Britheg y Gors a'r Pathew. Agorwyd ardaloedd penodol ar gyfer infertebratau cyffredinol. Tua 175 o ymweliadau addysgol/digwyddiadau. Cynhaliwyd arolygon o ffyngau, infertebratau, chwilod saproxylig ac ystlumod gan ymgynghorwyr allanol.

Gwnaed gwaith INNS yng Ngwarchodfa Natur Leol Morlyn Pwll ar gyfer Rhododendron ac yng Ngwarchodfa Natur Leol Doc y Gogledd ar gyfer Rhafnwydden y Môr a Rhosyn Japan gyda chyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Leol drwy Bartneriaeth Natur Leol Sir Gaerfyrddin.

Gyda'r cyllid hwn, gwnaed gwaith ffensio hefyd i amddiffyn cynefin Llygoden Bengron y Dŵr yng Ngwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig.

Gwaith adfer mawnog a ariennir gan CNC ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain, yn ogystal â £25k o gyllid gan Brosiect Mawndiroedd LlC a fydd yn caniatáu blocio ffosydd a gwaith adfer corsydd pellach yma.

Gweithiodd Hamdden Awyr Agored mewn partneriaeth â phrosiect Cadwraeth Cacwn "Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin", a hefyd prosiect Natur am Byth i amddiffyn Chwilen y Draethlin, sydd mewn perygl.

Cyfrannodd gwirfoddolwyr Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored Cyngor Sir Caerfyrddin 1000 awr o'u hamser rhwng Ebrill a Medi 2024.

Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi clirio llwybrau troed yn ein Gwarchodfa Natur Leol ym Morfa Berwig

Mae Parc Coetir y Mynydd Mawr wedi ennill statws Coedwig Genedlaethol i Gymru.

Gwarchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre

| | |
|---|---|
| **Derbyniwyd cyllid grant gan:**<br>TWIG, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, CNC | **Cydweithio:** Partneriaid Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, Natur am Byth, Gwasanaeth Prawf, BC, Tir Coed, Coed Lleol. |
| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**<br>❶ ✓ ❷ ✓ ❸ ✓ ❹ ✓ ❺ ✓ ❻ | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |

Meithrinfa Prosiect Morwellt - mae'r tîm wedi canolbwyntio ar flodau a hadau. Parhaodd y planhigion yn y polidwnnel i flodeuo drwy'r haf ac mae llawer o beillio wedi golygu ein bod wedi gallu casglu llawer o gycyllau llawn hadau. Mae'r cycyllau hyn wedi'u prosesu (lle rydym ni'n gadael i'r cycyllau bydru a'r hadau aeddfed ddisgyn allan) ac rydym wedi dechrau casglu'r hadau aeddfed sydd bellach yn cael eu storio.

Mae timau gwaith maes ar Ynys Wyth, yng Ngogledd Cymru ac yn yr Alban wedi bod yn mynd allan i ddolydd i gasglu hadau ar gyfer prosiectau adfer. Mae'r cycyllod llawn hadau sydd wedi'u casglu bellach yn ein pencadlys ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle maent yn cael eu prosesu. Unwaith byddant yn barod, byddant yn cael eu cludo i'r feithrinfa i'w storio a'u monitro yn y tymor hir.

Bu monitro hefyd o brosiect De a Gorllewin Cymru i werthuso llwyddiant hau hadau a thrawsblannu craidd yn ein safleoedd yng Nghaerdydd a Llanelli a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Bu i ddiwrnodau agored ar safle'r feithrinfa ym Mhentywyn ganiatáu i bobl (gan gynnwys partneriaid Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin) ymweld â'r safle, cwrdd â'r tîm, a gweld y gwaith sydd ar y gweill yno.

Amlhau hadau morwellt - cycyllod llawn hadau

**Cydweithio:** Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, CNC, CSC, gwirfoddolwyr

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ |

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Lansiodd y prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn Sir Gaerfyrddin ei Lwyfan Ymgysylltu yn 2024. Mae'n cynnwys arolwg i ddarganfod sut mae pobl yn teimlo am eu hardal leol a map i ollwng pin i ddangos eu hoff fan gwyrdd cyhoeddus.
Gall pobl gofrestru i glywed am ddigwyddiadau bywyd gwyllt a mannau gwyrdd, hyfforddiant, newyddion a diweddariadau prosiect, cyflwyno lluniau a chael gwybod mwy am brosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Mae'n gyfle i unigolion a chymunedau gymryd rhan, rhannu profiadau, a dysgu gan eraill.

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ | ❸ | ❹ | ❺ | ❻ |

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

Eleni, diolch i gefnogaeth CNC, gosododd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru lawer iawn o ffensys a seilwaith newydd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel. Roedd hyn yn cynnwys tua 600 metr o byst a weiren a chorlan newydd, i gefnogi'r gwaith parhaus o gildroi ein dolydd gwair cyfoethog eu rhywogaethau trwy alluogi pori adladd parhaus, yn ogystal ag adrannu'r pwysau pori sydd ar y safle. Mae'r gorlan, sy'n caniatáu llwytho gwartheg yn ddiogel ac sy'n lle angenrheidiol ar gyfer profi TB, yn hanfodol.

Roeddem hefyd wedi gallu ffensio ardal o waun a phrysgwydd gweddilliol i sefydlu pori mewn rhan 3.5 hectar sydd wedi'i hesgeuluso. Mae ffens y ffin yn mesur yn agos at gilomedr. Treuliodd pedair buwch sawl wythnos yn damshgel y rhedyn ac yn pori ar y prysgwydd wrth i hwnnw brysur adfywio. Mae hyn wedi agor lan yr haen o brysgwydd lle'r oedd rhywogaethau rhostir prysgoed bach megis grug a llus, yn cael trafferth goroesi yn yr holl dyfiant.

Ar y rhan sy'n gors, fe wnaethom hefyd adeiladu corlan trin newydd, a chodi ffens newydd wrth ochr y ffordd yn lle un oedd wedi'i difrodi, i gefnogi pori parhaus. Mae'r gors, a ddraeniwyd yn flaenorol, yn dioddef o brysgwydd yn gordyfu sy'n arwain at sychu'r mawn ymhellach. Mae pori gwartheg yn helpu i gadw'r tyfu hwn dan reolaeth.

Rydym wedi cael ein hariannu gan Gronfa Amgylchedd Dŵr Cymru a Choed Cadw ar gyfer prynu coed gwrychoedd i blannu dau wrych newydd, gwella'r gorchudd coed a chysylltu cynefinoedd ar draws y safle.

Gwartheg yn pori yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel

**Derbyniwyd cyllid grant gan:**

Mae cyllid Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru/Cronfa Dreftadaeth y Loteri Glaswelltiroedd Gwydn Iach a chyllid Natur Hygyrch wedi cyflawni camau gweithredu ar lawer o'n gwarchodfeydd yn Sir Gaerfyrddin. Mae cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi cefnogi sawl prosiect creu cynefinoedd eraill, a phrosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn y sir.

**Cydweithio:** CNC, Dŵr Cymru, Coed Cadw, gwirfoddolwyr

| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?** | | | | | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ | ✓ |

Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru (MWRSP) wedi bod yn estyn allan at bartneriaid, gan ddatblygu mentrau cydweithredol i gyflawni amcanion a rennir.

Fe wnaethom ddatblygu rhaglenni ymchwil gyda Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor, a chysylltiadau agosach â rheolwyr coedwigoedd CNC, yn ogystal ag ardaloedd cadwraeth gwiwerod coch eraill yng Nghymru ac yn y DU. Mae'r ardal MWRSP bellach wedi'i chynrychioli ar fap dosbarthiad Gwiwerod Coch, ac rydym yn cyfrannu at ddatblygu prosiect a strategaeth gwiwerod cenedlaethol ledled Cymru mewn cydweithrediad ag UKSA. Bydd hyn o fudd uniongyrchol i gadwraeth Gwiwerod Coch yn Sir Gaerfyrddin ac i gynnwys pobl leol yn y broses honno yn y tymor hir.

Rydym hefyd wedi bod yn ymdrechu i recriwtio gwirfoddolwyr i gymryd lle'r rhai sydd wedi camu'n ôl o'r prosiect ar ôl blynyddoedd lawer o roi o'u

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| hamser. I wneud hyn, rydym wedi ail-argraffu taflenni MWRSP ac wedi mynychu sioeau lleol, yr oedd tri ohonynt yn Sir Gaerfyrddin: Cwrt y Cadno, Rhandir-mwyn a Caio.<br>Rydym yn bartner ym Mhrosiect *Changing Forests in a Changing World* ym Mryn Arau Duon, a ariennir gan TWIG, gan ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd a gwirfoddoli yn bennaf.<br>Darparwyd cwpwl o sesiynau hyfforddi 1:1 ynghylch rheoli'r Wiwer Lwyd ac adnabod y Wiwer Goch a thrapiau camera. Mae un o'n swyddogion prosiect bellach yn hyfforddwr Lantra achrededig ac rydym yn paratoi i ddarparu diwrnod hyfforddi ynghylch rheoli gwiwerod llwyd i'n staff a'n gwirfoddolwyr newydd, yn ogystal â chynrychiolwyr o brosiectau tebyg a sefydliadau partner. | | | | | | |
| **Derbyniwyd cyllid grant gan:**<br>Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru | | | | | | **Cydweithio:**<br>Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Prifysgol Aberystwyth, RSPB, VWT, BASC, NT, CNC, prosiect TWIG – Changing Forests in a Changing World |
| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?** | | | | | | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ | |
| Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn rheoli amrywiaeth o safleoedd, o Warchodfeydd Natur Lleol, Parciau Gwledig, a mannau gwyrdd i safleoedd sy'n cael eu rheoli fel rhan o gytundebau cynllunio.<br>Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn bwysig ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau blaenoriaeth yng Nghymru. Arolygir safleoedd - gan weithio gyda syrfewyr ecolegol neu gan staff, weithiau gyda chymorth gwirfoddolwyr. Mae arolygu ar gyfer rhywogaethau fel y Pathew, Llygoden Bengron y Dŵr, Glöyn Byw Britheg y Gors, Chwilen y Draethlin, Ystlumod, y Dyfrgi a Llygoden yr Ŷd i gyd yn llywio rheolaeth safleoedd ac yn helpu i hyfforddi swyddogion.<br>Mae swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gydag ystod eang o adrannau yn fewnol, megis gyda thimau eiddo, priffyrdd a chynnal a chadw i sicrhau bod rhywogaethau'n cael eu hystyried yn ystod gwaith arferol. Er enghraifft, sicrhau bod y potensial ar gyfer ystlumod ac adar yn cael ei ystyried yn ystod gwaith ar eiddo neu strwythurau sy'n eiddo i'r Cyngor, neu ymlusgiaid, adar ac amffibiaid yn ystod gwaith cynnal a chadw gerddi a thiroedd. | | | | | | |
| | | | | | | **Cydweithio:**<br>Partneriaid Partneriaeth Natur Lleol, ymgynghorwyr ecolegol, gwirfoddolwyr arbenigol |
| **Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?** | | | | | | **Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr** |
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ | |
| Mae prosiect datblygu Partneriaeth Adfer Britheg y Gors Gwarchod Glöynnod Byw Cymru ar y gweill, gyda grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri) gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Yn rhedeg tan fis | | | | | | |

Rhagfyr 2025, ein nod yw creu 'Partneriaeth Adfer Britheg y Gors Cymru' gyda phartneriaid allweddol a thirfeddianwyr. Gyda gwaith gwych eisoes yn cael ei wneud i ddiogelu Britheg y Gors ledled Cymru, rydym am ddod â phawb ynghyd i rannu arbenigedd, profiad, angerdd a data i gyfuno adnoddau i gael mwy o effaith. Ar hyn o bryd rydym yn treialu 'hybiau' rhanbarthol i roi ffocws lleol, a fydd yn cyfrannu at bartneriaeth ledled Cymru yn y dyfodol.

Mae data'n parhau i ddangos bod Britheg y Gors yn dirywio yng Nghymru er gwaethaf camau cadwraeth wedi'u targedu i fynd i'r afael â cholli cynefinoedd, diraddio a darnio. Ar hyn o bryd rydym yn monitro safleoedd craidd ledled Cymru yn eu tro, ond mae angen mwy o gefnogaeth i'n gwirfoddolwyr ymroddedig na fyddai hyn wedi bod yn bosibl hebddynt, ac i gefnogi'r bartneriaeth gynyddol hon. Ers mis Mehefin rydym wedi cynnal hyfforddiant ar-lein ac ar y safle ynghylch ecoleg Britheg y Gors a thechnegau arolwg. Byddwn yn cynnal sesiynau hyfforddi pellach, hyfforddeiaethau haf i bobl ifanc 18-25 oed, a chyfleoedd i unigolion a grwpiau cymunedol ymuno â ni ar amrywiaeth o ymweliadau safle, tasgau ymarferol a mapio cynefinoedd trwy gydol 2025.

Trwy gydweithio â phartneriaid a thirfeddianwyr, rydym yn llunio argymhellion a chynlluniau wedi'u costio ar gyfer safleoedd blaenoriaeth a nodwyd, gan ddatblygu prosiectau 'parod ar gyfer rhaw' ar gyfer ceisiadau a gyllidir yn y dyfodol. Y nod yn y pen draw, yn dilyn ymlaen o'r prosiect hwn, yw creu 'Strategaeth Britheg y Gors i Gymru', y bydd partneriaid yn cyfrannu ati yn eu tro, a'i chymeradwyo gobeithio, gan sefydlu ymagwedd ar y cyd i sicrhau dyfodol Britheg y Gors yng Nghymru.

I ffwrdd o'r Gronfa Rhwydwaith Natur, rydym yn parhau i ymgymryd â gwaith yn y gaeaf ar gyfer Britheg y Gors sy'n cynnwys rheoli prysgwydd ar laswelltiroedd pori Rhos sy'n cefnogi gweoedd larfau o fewn metaboblogaethau presennol.

Mae gwaith ar ddiwedd yr haf wedi parhau ar gyfer y Brithribin Brown, gan gynnwys cael gwared ar lystyfiant o waelod gwrychoedd i sicrhau adnoddau addas i ddodwy wyau a byddwn yn cynorthwyo gyda gwaith prysgoedio'r gaeaf ar safleoedd allweddol ac yn parhau i ddarparu cyngor ar reoli gwrychoedd drwy gydol y flwyddyn i dirfeddianwyr.

Mae monitro'r Brithribin Brown, trwy gyfrif wyau, yn parhau i gael ei wneud trwy gydol misoedd y gaeaf mewn safleoedd craidd, gan adeiladu sylfaen dystiolaeth gref i roi gwybod i brosiectau'r dyfodol ble mae'r angen o ran rhoi blaenoriaeth i gysylltedd, a gwrychoedd presennol i'w rheoli'n ffafriol.

Rydym hefyd wedi bod yn cefnogi prosiect 'Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin' y BBCT, gan gynnal arolygon o'r Gwibiwr Brith, Gwibiwr Llwyd, Glesyn Bach, Cliradain Wregysgoch Fawr, Brychan Smotiau Gwyn a *Caryocolum blandulella*.

**Derbyniwyd cyllid grant gan:**

Mae Prosiect Partneriaeth Adfer Britheg y Gors Cymru yn cael ei ariannu gan grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd tri) Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

**Cydweithio:**

WTSWW, NT, INCC
The Bug Farm, BBCT, Buglife
CSC, CNC, MOD Pentywyn a Phen-bre

**Yn cyfrannu at Amcanion Cynllun Adfer Natur Caerfyrddin (gweler y cyflwyniad)?**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | | | ✓ | |

**Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr**

**Cyllido Prosiectau yn Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys i Bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin) yn 2024**

**1. Y Grant Gwella Coetir (TWIG) – prosiectau Sir Gaerfyrddin**

Rheilffordd Dreftadaeth Llanelli a'r Mynydd Mawr
CSC - Gwarchodfa Natur Leol Ynysdawela
Sustainable Forest Management Ltd - Bryn Arau Duon
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Dolaucothi
CSC - Bynea
CSC - Pontyberem

**2. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LlC**

Pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus yn Sir Gaerfyrddin ers 2020/21
72 o becynnau cychwynnol (Peilliwr/Bywyd Gwyllt/Perllan/Bwyd) ar gyfer cymunedau/grwpiau
31 o becynnau datblygu (Bwyd/Bywyd Gwyllt) ar gyfer cymunedau/grwpiau

**Arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri** - un sydd ar waith sef Llanedi.
Mae porthladd Pen-bre a Phorth Tywyn yn dal i gyflwyno'r gwaith papur cyn dechrau.

**Cyllido Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**

23/24 - 11 o brosiectau cyfalaf wedi'u cefnogi
23/24 - 11 o brosiectau refeniw wedi'u cefnogi
24/25- 12 o brosiectau cyfalaf ar y gweill/yn yr arfaeth
24/25- 18 o brosiectau refeniw ar y gweill/yn yr arfaeth

**Cyllid Rhwydweithiau Natur LlC / Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

Mae Rhwydweithiau Natur yn rhaglen 3 blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru trwy gynyddu bioamrywiaeth, gwella cyflwr safleoedd gwarchodedig, a gwella gwytnwch a chysylltedd ein cynefinoedd a'n rhywogaethau.

NNF2 2023 – Prosiectau Sir Gaerfyrddin
BBCT – Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin
Plantlife - Prosiect Glaswelltiroedd Gwydn

NNF3 2024 – Prosiectau Sir Gaerfyrddin – yn gyfan gwbl neu'n gysylltiedig â hwy'n rhannol.
BC - Partneriaeth Adfer Britheg y Gors, Cymru
WWRT - Prosiect Gwella a Rheoli Afonydd Brithyll y Môr (STREAM)
VWT - Asesiad Dichonoldeb Cymdeithasol ar gyfer ailgyflwyno'r gath wyllt Ewropeaidd (*Felis silvestris*) i Gymru
BSBI - Planhigion â blaenoriaeth ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru
Prosiect Morwellt - Hwyluso Rhwydweithiau Natur Carlam ar gyfer Morwellt (FANNS)
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - Tyfu Gwydnwch: Gwarchodfa Natur Genedlaethol ar gyfer y dyfodol
Plantlife - Coedwigoedd Glaw Gwydn Cymru
BTO Cymru – Monitro Adar Ysglyfaethus Cymru